



SOCIAL RESEARCH NUMBER:

02/2017

PUBLICATION DATE:

31/01/2017

Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg

Adroddiad Cam 2: Crynodeb Gweithredol

Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg: Adroddiad Ton 2 Crynodeb Gweithredol

Ymchwil Arad



Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai
Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Hayley Collicott

Yr Is-adran Deuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3111

E-bost: Hayey.Collicott@wales.gsi.gov.uk

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Hawl EHV	<p>Mae'r hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu un Ymwelydd Iechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant dan 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli llwyth achosion is na'r gwasanaeth cyffredinol a'i ddiben yw sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei ddarparu i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd. Prif swyddogaeth Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yw cynorthwyo'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o ran risg uchel, canolig ac isel) a gwneud cyfeiriadau priodol.</p>
Hawl gofal plant	<p>Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, a gynigir i rieni pob plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, am 2 awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ogystal, dylai o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth fod ar gael i'r teulu yn ystod y gwyliau ysgol.</p>
Hawl rhianta	<p>Rhaid i bob teulu sy'n cynnwys plentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae modd i hwn fod mewn grwpiau neu mewn sefyllfa un-i-un yn y cartref, gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol, gan ddibynnu ar yr angen. Caiff y cynnig rhianta ei seilio ar y 3 thema ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• amenedigol a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar• dulliau gweithredu ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo rhieni agored i niwed• rhaglenni er mwyn cynorthwyo rhieni gyda rhianta cadarnhaol.

Hawl SLC	<p>Hawl Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig amrediad o gyfleoedd i fanteisio ar grwpiau a chysiau (e.e. Iaith a Chwarae), yn ogystal â chymorth gan Therapyddion Iaith a Lleferydd a staff eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith a lleferydd. Yn flaenorol, galwyd yr hawl SLC yn hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) (tan 2015) ac fe'i galwyd yn hawl Iaith a Chwarae yn flaenorol hefyd. Newidiwyd hawl ELD i 'Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu' (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015. Mae Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn ddisgrifiad ehangach ac mae'n cynnwys yr holl sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i blant fod yn gyfathrebwyr cymwys a hyderus.</p>
SLT	<p>Therapi/Therapydd Iaith a Lleferydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflogi staff SLT trwy Ddechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae modd i deuluoedd gael eu cyfeirio gan staff Dechrau'n Deg i wasanaethau SLT cyffredinol hefyd.</p>
IaCh	<p>Iaith a Chwarae. Mae IaCh yn rhan o hawl SLC Dechrau'n Deg ac mae'n ymyriad SLC cyffredinol, anffurfiol. Yn aml, cynhelir sesiynau IaCh fel sesiynau 'galw heibio' ar draws awdurdodau lleol, ond mae modd eu cynnig fel cwrs hefyd (fel arfer rhwng pedair a chwech sesiwn). Mae IaCh yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae er mwyn helpu i feithrin sgiliau iaith a rhyngweithio rhwng rhieni a'u plant.</p>
Teuluoedd Ton 1, 2 neu 3	<p>Teuluoedd sy'n cael eu cyfweld yn ystod y tri cham blynyddol, neu donnau ymchwil. Ton 1 (yn 2015), 2 (2016) neu 3 (yn 2017).</p>
Asesiad SoGS	<p>Y Rhestr Sgiliau Tyfu. Mae SoGS yn offeryn asesu datblygiadol safonol a ddefnyddir gan weithwyr</p>

proffesiynol y mae angen iddynt ddarganfod lefelau datblygiadol plant. Mae ymarferwyr Dechrau'n Deg yn defnyddio'r offeryn i asesu lefel ddatblygiadol plant dwy a thair oed.

Teuluoedd mewn
angen Uchel/
Canolig/Isel

Teuluoedd sy'n cael eu diffinio gan dîm Dechrau'n Deg eu hawdurdod lleol fel rhai y mae angen cymorth arnynt ar lefel uchel/canolig/isel. Mae'r union ddiffiniadau o lefelau'r angen yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond maent yn ystyried ffactorau megis problemau iechyd, amddifadedd, oedran y rhiant, iaith ac argaeledd rhwydweithiau cymorth. Yn yr adroddiad hwn, caiff lefel angen y teulu ei chynnwys wrth ymyl dyfyniadau er mwyn rhoi cyd-destun i sefyllfa y teulu (pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil).

Crynodeb gweithredol

1. Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg. Cynhelir yr astudiaeth hydredol hon mewn tri cham (a ddisgrifir fel Tonnau 1, 2 a 3) rhwng 2015 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Ton 2 y gwaith ymchwil, ar sail y gwaith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Awst 2016.¹
2. Lanswyd rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006/7 ac mae'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a theuluoedd mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er mwyn gwneud gwahaniaeth pendant i'w bywydau. Mae'n canolbwyntio ar adnabod anghenion ac ar ymyriadau cynnar er mwyn gwella datblygiad ieithyddol, datblygiad gwybyddol a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, ynghyd â'u hiechyd corfforol. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig pedair prif hawl:
 - gwasanaeth ymweliadau iechyd estynedig (EHV);
 - gofal plant rhan-amser ac o ansawdd uchel am ddim i blant 2-3 oed;
 - y cyfle i fanteisio ar gymorth rhianta; a
 - chymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC).²

Nodau'r gwaith ymchwil

3. Nodau'r prosiect hwn yw:
 - deall profiadau teuluoedd o raglen Dechrau'n Deg;
 - adnabod unrhyw effeithiau tybiedig y rhaglen ar deuluoedd Dechrau'n Deg.
4. Mae'r ymchwil yn rhoi sylw i'r cwestiynau canlynol:

1 Mae modd troi at adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a) yma <http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy>

2 Newidiwyd yr hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) i Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015c).

- Sut mae rhieni'n ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg a beth sy'n helpu ac sy'n llesteirio ar y gweithgarwch ymgysylltu?
- Sut mae rhieni yn penderfynu pa hawl(iau) y byddant yn ymgysylltu â nhw a phryd?
- Ym mha ffyrdd y bydd rhieni yn cael profiad o wahanol hawliau Dechrau'n Deg (h.y. ymweliadau iechyd estynedig, gofal plant, SLC, cymorth rhianta)?
- Beth yw disgwyliadau rhieni o raglen Dechrau'n Deg?
- I ba raddau y mae rhieni o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cyflawni yn erbyn unrhyw ddisgwyliadau?
- Sut mae Dechrau'n Deg yn ymwneud â gwasanaethau eraill (gan gynnwys ysgolion/rhaglenni cymorth i deuluoedd eraill/gwasanaethau iechyd? Er enghraifft, a cheir profiadau lle y mae Dechrau'n Deg yn 'cyfeirio' teuluoedd at wasanaethau eraill, a beth yw canlyniadau hyn?
- Pa mor dda y mae rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y rhaglen wedi adnabod ac ymateb i anghenion a dymuniadau teuluoedd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Beth yw canfyddiadau rhieni o effeithiau'r rhaglen, os o gwbl, ar eu teulu nhw yn y tymor canolig i'r tymor hir?

Trosolwg o'r dull gweithredu

5. Nod y gwaith ymchwil yw ymweld â theuluoedd ar dair achlysur yn ystod eu cyswllt gyda rhaglen Dechrau'n Deg. Roedd Ton 1 yr astudiaeth (2015) yn cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd a chwe chyfweiliad gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg. Mae Ton 2 wedi cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd, gan gynnwys 53 o gyfweiliadau dilynol gyda theuluoedd o'r don gyntaf (sampl hydredol) ac 19 o gyfweiliadau gyda sampl 'atodol' o deuluoedd er mwyn disodli'r rhai

nad oedd modd iddynt gymryd rhan mewn ail gyfweiliad. Cynhaliwyd y 72 o gyfweiliadau Ton 2 gyda theuluoedd a'r chwe chyfweiliad gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg rhwng mis Mai a mis Awst 2016. Bydd Ton 3 yn cynnwys 72 o gyfweiliadau pellach, a fydd yn cynnwys cyfweiliadau pellach gyda theuluoedd o'r don gyntaf a'r ail don pan fo modd, yn ogystal â sampl 'atodol' er mwyn disodli unrhyw deuluoedd na fydd modd iddynt gymryd rhan mewn ail neu drydydd cyfweiliad.

Canfyddiadau cyffredinol

6. Mae canfyddiadau cyfweiliadau Ton 2 yn dangos bod y rhan fwyaf o rieni wedi parhau i fanteisio ar o leiaf un o'r hawliau yr oeddent wedi manteisio arnynt yn ystod Ton 1, sy'n arwydd o gyswllt parhaus teuluoedd gyda Dechrau'n Deg. Roedd lefelau bodlonrwydd y rhan fwyaf o rieni gyda'r gwasanaethau a ddarparir dan y pedair hawl yn parhau i fod yn uchel, a chafwyd enghreifftiau ganddynt o brofiadau cadarnhaol gyda staff, darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau neu leoliadau. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn a'i fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w sgiliau a'u gwybodaeth nhw fel rhiant.

Ymgysylltu a disgwyliadau

7. Roedd lefelau ymgysylltu gyda Dechrau'n Deg wedi parhau'n eithaf cyson ymysg y teuluoedd a gyfwelewyd yn ystod Tonnau 1 a 2. Roedd cyfweiliadau'n dangos amrywiadau o ran y graddau y mae teuluoedd yn ymgysylltu â phob hawl ac roedd yn ymddangos bod sawl ffactor yn dylanwadu ar hyn, gan gynnwys: oedran y plentyn (plant); profiad a hyder rhieni; lefelau angen teuluoedd a chryfder perthynas rhieni gyda staff y Rhaglen (yn enwedig Ymwelwyr Iechyd), yn ogystal ag amllder disgwyliedig y cyswllt a nodwyd yng nghanllawiau Dechrau'n Deg.
8. Mae canfyddiadau Ton 2 yn dangos bod teuluoedd yn parhau i ymgysylltu â hawliau am amrywiaeth o resymau. Bu rhieni yn ymgysylltu â'r gwasanaeth EHV pan oeddent yn ceisio cyngor am faterion iechyd neu

faterion datblygiadol penodol, yn ogystal â thrwy gyfrwng cysylltiadau craidd (e.e. apwyntiadau arferol am asesiadau datblygiadol). Roedd teuluoedd yn Nhon 2 yn tueddu i adrodd lefelau ymgysylltu is gyda'r hawl EHV (fel y disgwyl), gan bod eu plant erbyn hyn yn hŷn nag yr oeddent pan gawsant eu cyfweld yn ystod Ton 1. I nifer o'r teuluoedd hyn, roedd eu prif gyswllt gyda'u hymwelydd iechyd wedi ymwneud ag asesiad eu plentyn yn ddwy neu'n dair oed.³

9. Yn yr un modd â Thon 1, roedd cyswllt teuluoedd gyda'r hawl gofal plant yn dibynnu ar oedran (ac felly, cymhwysra) eu plentyn ar gyfer y gwasanaeth hwn. Roedd rhai teuluoedd wedi parhau i fanteisio ar ofal plant ers eu cyfweiliad yn ystod Ton 1 ac roedd rhai wedi dechrau manteisio ar yr hawl hon yn ystod Ton 2 ar ôl i'w plentyn gael eu pen-blwydd yn ddwy oed. Prif gymhelliant rhieni wrth fanteisio ar yr hawl i gael gofal plant oedd rhoi'r cyfle i'w plentyn gymdeithasu â phlant eraill. Roedd y rhwystrau a oedd yn atal rhieni rhag manteisio ar yr hawl gofal plant yn ystod Ton 2 yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn ystod Ton 1. Roedd hyn yn cynnwys amseriad a lleoliad y canolfannau gofal plant.
10. Roedd y lefelau cyswllt ag SLC a hawliau rhianta wedi aros yn gyson rhwng Tonnau 1 a 2. Roedd rhieni'n tueddu cymryd rhan mewn cyrsiau er mwyn meithrin gwybodaeth neu sgiliau, er mwyn gwella'u tebygolrwydd o gael swydd yn y dyfodol neu er mwyn cymdeithasu â rhieni eraill. Nododd rhieni a fynychodd grwpiau a sesiynau SLC eu bod wedi gwneud hynny er mwyn cyfarfod rhieni eraill ac fel bod modd i'w plant gymdeithasu â phlant eraill o'r un oed. Y prif rwystrau a oedd yn atal ymgysylltu â grwpiau SLC a chyrsiau rhianta oedd nad oedd yr amseriad yn gyfleus i rai rhieni; neu nad oedd rhieni'n ymwybodol o'r grwpiau neu'r cyrsiau a gynigir.

³ Mae *Rhaglen Graidd o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013b)* yn amlinellu amllder cysylltiadau arferol Ymwelwyr Iechyd: bob wythnos hyd at 6 wythnos yn dilyn genedigaeth, a ddilynir gan gyswllt bob 8, 12 ac 16 wythnos ac o leiaf 2 gyswllt rhwng 6 a 12 mis. Yn dilyn hyn, disgwylir y bydd ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl 18 mis, 2 a 3 blynedd (gan gynnwys asesiadau datblygiadol). Mae'r Rhaglen yn nodi y dylai cynlluniau gofal unigol, a ddatblygwyd wedi'u seilio ar asesiadau o anghenion y plentyn, ddylanwadu ar amllder y cyswllt. Mae hyn yn golygu y bydd angen i deuluoedd y nodwyd eu bod mewn angen uchel, gael cyswllt amlach gydag Ymwelydd Iechyd na'r rhai y nodwyd eu bod mewn angen canolig neu isel. Ymhellach, gall rhieni drefnu cyswllt ychwanegol â'u Hymwelydd Iechyd yn ôl y gofyn pan fydd materion penodol yn codi.

Profiadau

11. Isod, adroddir profiadau rhieni o'r holl hawliau mewn ffordd annibynnol. Fodd bynnag, mae natur holistig Dechrau'n Deg yn golygu ei bod yn bwysig cydnabod y cydgysylltiadau rhwng yr hawliau a chyfyngiadau dadansoddi profiadau o un hawl ar wahân i'r lleill. Er enghraifft, gallai gweithgareddau sy'n rhan o'r hawl SLC gael eu darparu mewn lleoliadau Gofal Plant neu trwy'r EHV heb i rieni fod yn ymwybodol o hyn. Dylid cofio hyn wrth adolygu'r canfyddiadau.
12. Yn yr un modd â Thon 1, roedd lefelau bodlonrwydd rhieni gyda'r gwasanaethau a ddarparir dan bob hawl yn uchel, a chafwyd enghreifftiau ganddynt o brofiadau cadarnhaol lle y darparwyd gwasanaethau mewn ffordd dda yn eu barn nhw. Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan rieni ynghylch darpariaeth gwasanaethau gan gynnwys ynghylch y staff, lleoliadau, cyfleusterau, gweithgareddau ac argaeledd darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a chymorth trwy'r Rhaglen.
13. Roedd gan y rhan fwyaf o rieni safbwyntiau cadarnhaol am yr hawl EHV ac roeddent yn fodlon iawn â'r cyngor a'r cymorth a gawsant gan eu Hymwelydd lechyd. Er bod teuluoedd yn adrodd na fu angen cymaint o gyswllt arnynt â'u Hymwelydd lechyd yn ystod Ton 2, roedd rhieni yn fodlon gydag amllder y cyswllt ac roedd y ffaith bod modd iddynt gysylltu â'u Hymwelydd lechyd pe byddai angen iddynt wneud hynny, yn cynnig tawelwch meddwl iddynt. Roedd yn ymddangos bod perthynas teuluoedd gyda'u Hymwelydd lechyd yn dylanwadu ar y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â'r hawl EHV a'r hawliau eraill. Roedd rhieni a ddisgrifiodd eu perthynas gyda'u Hymwelydd lechyd mewn ffordd fwy cadarnhaol yn tueddu i fod yn fwy tebygol o ddilyn eu cyngor yn ogystal ag ymgysylltu â gwasanaethau eraill Dechrau'n Deg. Yn gyffredinol, adroddodd teuluoedd eu bod yn fodlon gyda lefel y wybodaeth yr oeddent yn derbyn mewn perthynas ag asesiadau datblygiadol eu plentyn a soniodd sawl un am y ffaith bod modd troi at Ymwelwyr lechyd, eu bod yn ymateb a'u bod yn hyblyg. Yn yr un modd â Thon 1, roedd yn ymddangos bod rhieni a oedd

wedi cael eu cynorthwyo gan un Ymwelydd lechyd yn barhaus yn fwy bodlon â'r hawl na rhieni a oedd wedi cael cymorth gan sawl Ymwelydd lechyd gwahanol.

14. Roedd teuluoedd a oedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant yn ystod Ton 2 yn fodlon iawn gyda'r staff, y lleoliadau, y cyfleusterau, y cyfathrebu a'r cyngor a gafwyd gan staff gofal plant. Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan rieni ynghylch ansawdd y gofal plant, amrediad y gweithgareddau i blant a'r ffaith bod y ddarpariaeth yn galluogi eu plant i gymdeithasu â phlant arall o oed tebyg. Disgrifiodd rhai rhieni sut yr oedd gweithwyr gofal plant wedi gweithio mewn ffordd effeithiol gyda staff eraill Dechrau'n Deg, megis Therapyddion Iaith a Lleferydd (SLTs), gan gynorthwyo'u plentyn. Adroddodd rhai rhieni nad oedd amseriad sesiynau gofal plant Dechrau'n Deg yn gyfleus iddyn nhw gan eu bod yn cael eu cynnal ar yr un pryd ag y byddent yn mynd â'u plant i'r ysgol neu ar yr un pryd â'u hymrwymiaadau gwaith.
15. Adroddwyd lefelau bodlonrwydd uchel â'r hawl rhianta gan rieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2. Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol ynghylch amrediad y cyrsiau rhianta yr oeddent wedi'u mynychu a'r cymorth un-i-un a gawsant gan y rhai a oedd wedi manteisio ar yr hawl hon. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith bod y cyngor a'r wybodaeth yn ogystal â'r staff oedd yn darparu'r cymorth hwn yn ddefnyddiol ac yn berthnasol. Roedd rhai rhieni'n teimlo'u bod wedi cael cyngor rhianta defnyddiol ynghylch sut i reoli ymddygiad eu plentyn neu syniadau am weithgareddau y byddai modd iddynt eu gwneud gyda'u plentyn. Fodd bynnag, awgrymodd rhai rhieni y byddai modd gwella amseriad y cyrsiau rhianta (e.e. gallai cyrsiau gyda'r hwyr fod yn fwy cyfleus i rieni sy'n gweithio).
16. Yn yr un modd â Thon 1, adroddodd y rhan fwyaf o rieni lefelau bodlonrwydd uchel â'r hawl SLC yn ystod Ton 2, gan gynnwys sesiynau grŵp a chymorth un-i-un. Roedd gan rieni a oedd wedi manteisio ar gymorth SLC safbwyntiau cadarnhaol am y cyfleoedd yr oedd hyn wedi eu rhoi iddynt ganu, chwarae, darllen straeon a rhyngweithio gyda'u plentyn ac i'w plentyn gymdeithasu â phlant eraill. Roedd y rhai a oedd wedi cael

cymorth SLT yn fodlon â'r ffordd yr oedd y therapydd wedi cyfathrebu â'r teulu, gan roi adborth am ddatblygiad eu plentyn.

17. Roedd rhai rhieni wedi manteisio ar hawliau gofal plant, EHV ac SLC trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid oedd fawr iawn o rieni wedi manteisio ar gymorth rhianta trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn oherwydd na chynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyrsiau yr adroddodd rhieni eu bod wedi eu mynychu, trwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd, roedd yn adlewyrchu'r ffaith ma niferoedd cymharol fach o rieni sy'n mynychu cyrsiau, beth bynnag fo'r iaith. Roedd rhieni yn fodlon ag ansawdd y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr hawliau, ond mynegwyd safbwyntiau cymysg am argaeledd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd safbwyntiau rhieni ynghylch y ddarpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ac ynghylch y defnydd a wneir o Gymraeg yn achlysurol mewn lleoliadau gofal plant (e.e. caneuon a rhigymau) yn gadarnhaol. Adroddodd rhai rhieni nad oedd Ymwelydd Iechyd a oedd yn siarad Cymraeg ar gael iddynt, gan nodi y byddent wedi dymuno cael y dewis hwn. Nid oedd rhai rhieni yn cofio cael gwybod bod darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a nododd rhai rhieni bod gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael, ond nad oedd ei leoliad yn ddigon cyfleus iddyn nhw.

Canlyniadau ac effeithiau tybiedig

18. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn, yn ogystal ag ar eu sgiliau a'u gwybodaeth nhw fel rhiant. Mae natur hydredol yr astudiaeth hon wedi ein galluogi i brofi a oedd y canlyniadau amrywiol a briodolwyd i'r Rhaglen gan rieni yn ystod cyfweiliadau Ton 1, wedi cael eu harsylwi gan rieni yn ystod Ton 2.⁴
19. Roedd mwyafrif y rhieni yn Nhon 2 o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn. Er bod rhai rhieni wedi amlygu

⁴ Cynhaliwyd hwn trwy gynnwys y prif effeithiau a adroddwyd gan rieni yn ystod Ton 1 fel awgrymiadau yng nghanllaw cyfweld Ton 2. Caiff y canllaw cyfweld ar gyfer Ton ei gynnwys fel Atodiad 1 y prif adroddiad.

gwasanaethau penodol (e.e. gofal plant neu SLT) a oedd wedi gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad eu plentyn yn eu barn nhw, roedd y rhan fwyaf o rieni'n tueddu i briodoli'r effeithiau i'r Rhaglen yn gyffredinol. Roedd rhai rhieni'n teimlo hefyd bod Dechrau'n Deg wedi bod o fudd anuniongyrchol i'w plentyn, trwy wella'u sgiliau rhianta nhw.

20. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni eu bod o'r farn bod y Rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar yr agweddau canlynol ar ddatblygiad eu plentyn:

- Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu;
 - e.e. bod yn fwy siaradus; dysgu a defnyddio geiriau newydd (Cymraeg a Saesneg); siarad yn fwy clir; geirfa a ffurfio brawddegau; adnabod a chanu rhigymau newydd;
- Bod yn barod i'r ysgol;
 - e.e. cyfrif, adnabod rhifau, llythrennau neu'r wyddor; lefelau canolbwyntio; addasu i amser i ffwrdd o'u rhieni a gwahanol arferion; dal pensil a'i ddefnyddio; diddordeb mewn tynnu lluniau a phaentio; diddordeb mewn llyfrau ac eistedd a gwrando ar straeon;
- Sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad;
 - e.e. cymdeithasu â phlant eraill; rhannu a chymryd tro; rhyngweithio ag oedolion; delio â phyliau o dymer a rheoli dicter; delio â sefyllfaoedd heriol; hyder; a hapusrwydd.

21. Yn ogystal, adroddodd rhai rhieni bod y Rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:

- Sgiliau ymarferol
 - e.e. defnyddio cylllell a fforc a chwpan; dysgu defnyddio'r toiled; arferion cysgu; tacluso; brwsio'u dannedd;
- Iechyd
 - e.e. adnabod a rhoi cyngor am faterion iechyd fel brech glytiau, ecsema, asthma, pydredd dannedd, alergeddau ac

anoddefiad bwyd; gwneud cyfeiriadau i weithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. ffisiotherapyddion, deintyddion a dietegwyr); bod yn ffordd o drosglwyddo gwybodaeth rhwng teuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

22. Roedd mwyafrif y rhieni a gyfwelwyd yn ystod Ton 2 o'r farn bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u sgiliau rhianta, yn ogystal â lles cyffredinol eu teulu. Roedd rhieni yn Nhon 2 yn fwy tebygol o gyfeirio at y mathau hyn o effeithiau na'r rhai yn Nhon 1, a nododd nifer o rieni eu bod yn parhau i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth yr oeddent wedi'u cael gan y Rhaglen cyn eu cyfweiliad yn ystod Ton 1. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar yr agweddau canlynol ar eu sgiliau a'u gwybodaeth:

- Eu hymagwedd tuag at rianta;
 - e.e. syniadau am weithgareddau y byddai modd iddynt eu cynnal gyda'u plant; diet ac arferion yn ystod prydau bwyd; syniadau newydd am brydau bwyd a sut i annog eu plentyn i flasw bwydydd gwahanol;
- Eu hymagwedd tuag at gynorthwyo dysgu eu plentyn;
 - e.e. cyngor ynghylch darllen gyda'u plentyn; syniadau am ganeuon neu rigymau;
- Sut y maent yn cyfathrebu â'u plentyn;
 - e.e. cael cyswllt llygad; syniadau am sut i chwarae gyda'u plentyn; defnyddio iaith gadarnhaol a chwestiynau agored;
- Sut y maent yn rheoli ymddygiad eu plentyn;
 - e.e. canmol ymddygiad da; pennu terfynau;
- Eu hyder fel rhiant a'r graddau y maent yn teimlo'u bod yn cael cymorth da;

- e.e. cyfleoedd i ofyn cwestiynau i staff; rhieni'n nodi eu bod yn teimlo fel pe baent wedi cael 'sicrwydd', 'cymorth' a'u bod yn 'fwy hyderus' gan bod cymorth ar gael
- Eu lles fel rhiant.
 - e.e. cyfleoedd i gymdeithasu â rhieni eraill; cyfeiriadau at wasanaethau cymorth iechyd meddwl; amser i wneud gwaith tŷ, addysg bellach neu waith rhan-amser.

23. Yn ychwanegol i'r effeithiau uchod, roedd rhai rhieni'n teimlo bod cyngor gan staff Dechrau'n Deg wedi cael effeithiau cadarnhaol ar hyd y cyfnod yr oeddent wedi parhau i fwydo eu baban ar y fron, eu hymagwedd tuag at ddiddynfau (e.e. mwy o wybodaeth am ddiet a maeth) a'u hymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelwch yn y cartref.

24. Adroddodd teuluoedd enghreifftiau o effaith yn amlach yn ystod Ton 2 nag y gwnaethant yn ystod Ton 1. Efallai nad yw hyn yn peri syndod o ystyried y ffaith bod eu plant wedi datblygu mwy erbyn hyn o'i gymharu â'u cyfweliad cyntaf, a bod teuluoedd wedi cael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg ychwanegol. Ymhellach, gallai'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd wrth gasglu canfyddiadau rhieni o'r effaith yn ystod Ton 2 (gan ddefnyddio'r prif effeithiau a nodwyd yn ystod Ton 1 fel awgrymiadau) fod wedi arwain at rieni'n adrodd nifer uwch o enghreifftiau. Mae Ton 3 yr astudiaeth hon yn ystod 2017 yn cynnig cyfle i archwilio i ba raddau y mae teuluoedd yn teimlo bod yr effeithiau hyn yn cael eu cynnal wrth i'w plentyn ddatblygu a symud ymlaen i'r Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, mae Ton 3 yn cynnig cyfle i archwilio sut y mae canfyddiadau rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cymharu â phrofiadau rhieni nad ydynt yn gymwys i fanteisio ar wasanaethau trwy'r Rhaglen.